



Ein cyf/Our: ref WAQ 79202

Adam Price AM  
Aelod Cynulliad Dwyrain Caerfyrddin a Dinefwr  
Cynulliad Cenedlaethol Cymru  
Bae Caerdydd  
CF99 1NA  
Adam.price@cynulliad.cymru

7 Ionawr 2020

Annwyl Adam

Diolch am eich cwestiwn ysgrifenedig yn y Cynulliad: *Ymhellach i WAQ79139, a wnaiff y Gweinidog gadarnhau a yw Llywodraeth Cymru wedi cynnal asesiad o rinweddau, neu ffaelectedau, tai cymdeithasol a gaiff eu darparu yn uniongyrchol gan awdurdodau lleol, yn hytrach na thai cymdeithasol a gaiff eu darparu drwy gymdeithasau tai, o ran atebolrwydd i bobl leol?*

Gallaf gadarnhau nad ydym wedi cynnal asesiad penodol o rinweddau, neu ffaelectedau, tai cymdeithasol a ddarperir gan awdurdodau lleol a chymdeithasau tai o ran atebolrwydd lleol.

Mae awdurdodau lleol, wrth gwrs, yn atebol i bobl leol drwy'r broses ddemocrataidd, tra bod landlordiaid cymdeithasol cofrestredig yn atebol i'w tenantiaid ac i'w byrddau.

Ar hyn o bryd, mae Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda rhanddeiliaid, gan gynnwys Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, Swyddfa Archwilio Cymru, TPAS Cymru a Cartrefi Cymunedol Cymru i adolygu rheoleiddio mewn perthynas â gwasanaethau tenantiaid. Bydd yr adolygiad yn ystyried y trefniadau rheoleiddio ac atebolrwydd presennol ar gyfer gwasanaethau tenantiaid yn y ddau sector. Bydd hyn yn cynnwys dadansoddiad o bwerau a swyddogaethau'r cyrff perthnasol mewn perthynas â gwasanaethau tenantiaid a sut y caiff y cyfrifoldebau hynny eu cyflawni ar hyn o bryd. Bydd yr adolygiad hefyd yn ystyried opsiynau ar gyfer alinio yn y dyfodol, gan asesu'r manteision posibl i denantiaid a landlordiaid yn ogystal â'r goblygiadau cysylltiedig o ran adnoddau, risgiau a lliniaru.

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:  
0300 0604400

Bae Caerdydd • Cardiff Bay  
Caerdydd • Cardiff  
CF99 1NA

[Gohebiaeth.Julie.James@llyw.cymru](mailto:Gohebiaeth.Julie.James@llyw.cymru)  
[Correspondence.Julie.James@gov.Wales](mailto:Correspondence.Julie.James@gov.Wales)

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Ni fydd strwythurau cyllid a llywodraethiant awdurdodau lleol yn rhan o'r adolygiad, ond caiff y goblygiadau iddynt eu hystyried.

Yn gywir



**Julie James AC/AM**

Y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol

Minister for Housing and Local Government